# Cyngor Cymuned Tudweiliog

Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun Rhagfyr 14eg 2020

Presennol: Henry Hughes, Siân Parri, Gareth Jones, Alan Hughes, John Davies, Seimon Glyn, Humphrey Williams, Medwyn Jones
Ymddiheuriadau:

1. Cadeiriwyd gan Siân Parri ac estynnodd groeso i bawb. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.
2. Materion yn codi o'r cofnodion:
 a. **Cyfethol Cynghorydd** – yn anffodus gwrthododd Margiad Williams y gwahoddiad o fod yn aelod newydd o'r Cyngor Cymuned. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chris Brady gan y cafwyd ar ddeall y gallai fod â diddordeb.
 Dywedodd y Clerc fod yr hysbysiad ynglŷn â'r ail sedd wedi ei roi yn ffenestr Post Tudweiliog.
 b. **Meddygfa Rhydbach** – Dywedodd y Clerc ei bod wedi anfon llythyr at y Feddygfa yn datgan pryderon y gymuned – hyd yn hyn ni dderbynwyd ymateb i'r llythyr.
 c. **Symud arwydd 30 milltir yr awr** yn Nhudweiliog. Darllenodd y Clerc e-bost a dderbyniodd gan yr adran ffyrdd fel a ganlyn

"Diolch am eich ymholiad isod ynglŷn ach cais i symud yr arwyddion 30 m.y.a hyd at gyffordd Towyn
Mae'r cyfyngiad cyflymder presennol wedi ei osod ar sail goleuadau stryd (by virtue of street lighting) sy'n golygu fod angen i'r arwyddion cyfyngiad cyflymder cael ei osod yn unol â stent y sustem golau stryd. All diffyg cydymffurfiad a'r rheol yma , tan seilio ymdrechion gorfodaeth o'r cyfyngiad cyflymder gan yr Heddlu.
Yn sgil hyn , ni allwn gefnogi eich cais ma nai ofn"

Yn anffodus felly does dim a all y Cyngor Cymuned ei wneud.

Ch. **Belle View Llaniestyn** – yn dilyn pryder ynglŷn â'r datblygiad, gofynnodd y Clerc I swyddog gorfodaeth fynd allan i gael golwg os oedd mwy o waith na'r hyn a gafwyd caniatâd yn digwydd. Cafwyd cadarnhad gan y Swyddog fod y gwaith yn unol â'r Caniatâd Cynllunio.

3. Gohebiaeth:

a. **Praesept 2021/22** – Penderfynwyd cadw'r praesept fel y llynedd sef £8000.00

b. **Tlodi Digidol** - Yn dilyn derbyn Llythyr gan Einir Wyn ar ran Cyngor Cymuned Llanengan trefnodd y Cadeirydd fod Cyngor Cymuned Tudweiliog yn derbyn pedwar gliniadur ar fenthyg gan Gwmni Cydweithredol Cymru. Bydd y pedwar yn cael eu dyrannu i'r rhai sydd eu hangen yn y gymuned gyda chymorth staff Ysgol Uwchradd Botwnnog.

c. **Cais Cynllunio** C20/1025/46/TC – Cil Llidiart, Dinas – 'Dim sylw'

4. Unrhyw fater arall:

a. **Mwd ar y lon** ger mynedfa Tŷ Newydd ar y ffordd rhwng Dinas a Llaniestyn. Bu i'r Clerc gysylltu â'r adran ffyrdd ar ddechrau mis Rhagfyr yn datgan pryder yr ardal fod y ffordd yn hynod lithrig ac yn amhosib stopio be byddai angen gwneud hynny'n sydyn ac felly yn beryglus i drafnidiaeth a cherddwyr, ond ni dderbynwyd ymateb. Bydd y Clerc yn cysylltu eto, a gofynnwyd hefyd i'r Cynghorwyr gysylltu yn unigol gan roi pwysa ar yr adran ffyrdd i weithredu cyn i ddamwain ddigwydd.

Cynhelir y cyfarfod nesar ar Zoom Nos Lun 11ed Ionawr 2021
am 7.30yh